
## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u pwerau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.*




*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, cysylltwch â'r Llawlyfr Staff neu cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru*

## 1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Newidiadau deddfwriaethol a pholisi arfaethedig Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthnasau a gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru, fel rhan o broses ehangach o drawsnewid gofal cymdeithasol plant.

Nod y cynigion hyn yw cryfhau'r cymorth i blant agored i niwed a'u teuluoedd ac maent yn cynnwys y newidiadau allweddol canlynol:

- **Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu:** Diwygiadau i reoliadau i symleiddio gofynion cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu dan gontract gydag awdurdodau lleol. Bwriad hyn yw cynyddu nifer y darparwyr sydd ar gael a gwella mynediad at gymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu.

- **Gwasanaethau Therapiwtig a Chwnsela i Oedolion:** Eithrio cwnselwyr a therapyddion rhag gorfod cofrestru ag AGC er mwyn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i oedolion, i gael gwared ar rwystrau a gwella mynediad at gymorth emosiynol a seicolegol i oedolion a fabwysiadwyd a pherthnasau biolegol.

- **Cynllunio Gofal ac Adolygu ar gyfer Mabwysiadu:** Diweddariadau i God Ymarfer Rhan 6 i egluro'r berthynas rhwng gwahanol gynlluniau gofal (Rhan 6, cymorth mabwysiadu, a Rhan 4) a sicrhau bod ymarferwyr yn cael canllawiau cliriach wrth gynllunio ar gyfer mabwysiadu.

- **Gofal Maeth gan Berthynas:** Cyflwyno categori penodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau, gyda fframwaith asesu wedi'i deilwra a gofynion adolygu ac ymweld mwy hyblyg. Mae hyn yn cydnabod natur unigryw lleoliadau teuluol a'i nod yw lleihau biwrocratiaeth ddiangen ar yr un pryd â chynnal diogelwch.

- **Lwfans Maethu Uwch:** Eglurhad yn y Cod Ymarfer ar sut gall gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr maeth sy'n berthnasau gael gafael ar lwfansau uwch, a disgwyliadau ar gyfer gofalwyr sydd wedi'u cymeradwyo dros dro.

- **Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM):** Newidiadau arfaethedig i reoliadau'r mecanwaith i sicrhau bod ymgeiswyr sy'n cael 'adroddiad cryno' yn ystod asesiad gofalwr maeth yn dal i allu cael mynediad at broses adolygu ystyrlon. Mae hyn yn cynnwys galluogi'r panel i ofyn am adroddiad asesu llawn os oes angen.

- **Cynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig:** Gofyniad statudol i awdurdodau lleol ddefnyddio templedi cynlluniau cymorth a ddatblygwyd yn genedlaethol i sicrhau cysondeb ac ansawdd y cymorth i warcheidwaid arbennig a'r plant yn eu gofal.

Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio i wella canlyniadau i blant drwy wella ansawdd, hygyrchedd a chysondeb gwasanaethau gofal a chymorth, ar yr un pryd â chryfhau hawliau plant i leisio eu barn, cysylltiad teuluol a chymorth priodol drwy gydol eu taith gofal, yn unol ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), fel lles pennaf y plentyn (Erthygl 3), yr hawl i fywyd, goroesi a datblygu (Erthygl 6), rhyddid mynegiant (Erthygl 13), gwasanaethau cymorth (Erthygl 18) ac amddiffyniadau i blant heb deuluoedd (Erthygl 20), adolygu lleoliad plentyn (Erthygl 25). Gyda'i gilydd, mae'r erthyglau hyn yn sail i bwysigrwydd sefydlogrwydd a pharhad ym mywyd plentyn, gan sicrhau bod trefniadau gofal yn hyrwyddo diogelwch, llesiant a datblygiad.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

### Ymchwil a Data Presennol

Mae newidiadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar amrywiaeth o ymchwil sy'n bodoli eisoes, adborth gan y sector ac astudiaethau wedi'u comisiynu. Mae'r prif ffynonellau'n cynnwys:

- Adborth gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol plant ledled Cymru, gan dynnu sylw at heriau o ran mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas drwy wahanol fforymau a grwpiau buddiant arbennig.
- Ymchwiliad y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol (JCHR) i arferion mabwysiadu hanesyddol, a nododd rwystrau rhag cael gafael ar wasanaeth cwnsela ar gyfer oedolion a fabwysiadwyd: The Violation of Family Life: Adoption of Children of Unmarried Women 1949–1976
- Ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar darfu ar Warcheidiaeth Arbennig (2020), a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio cymorth yn gyson: Tarfu ar Warcheidwaeth Arbennig yng Nghymru: Astudiaeth Archwiliadol
- Gwybodaeth ymarferol gan AFKA Cymru, gan gynnwys datblygu templedi cynlluniau cymorth (Hyb Adnoddau - AFKA Cymru) ac ymgysylltu ag ymarferwyr awdurdodau lleol mewn grwpiau buddiant arbennig rheolaidd.

Mae'r ffynonellau hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer y newidiadau arfaethedig, yn enwedig o ran nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir, anghysondebau mewn ymarfer a'r angen am ddulliau mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Roedd yr ymgysylltu'n cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc ar draws y maes mabwysiadu a maethu fel y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Cydweithredfeydd Mabwysiadu Rhanbarthol yng Nghymru, Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol, Maethu Cymru, Kinship Cymru, a Grŵp Buddiant Arbennig AFKA Cymru ar gyfer Gwarcheidwaid Arbennig a Gofalwyr sy'n Berthnasau. Llwyddodd cyngor ieuenctid 'Connected' i gael gwybodaeth am y newidiadau gofynnol i reoliadau mabwysiadu. Gofynnodd aelodau o'r grŵp buddiant arbennig ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau am farn y plant a'r bobl ifanc roeddent yn gofalu amdanynt er mwyn cael adborth. Roedd gwrando ar leisiau plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaethau yn galluogi swyddogion polisi i ddatblygu'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

Daeth yn amlwg hefyd bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan berthynas yn teimlo bod cael eu trin fel plant “sy'n derbyn gofal” dan y system bresennol yn anghymesur ac yn stigmateiddio. Roeddent am i ofal teuluol gael ei gydnabod fel rhywbeth gwahanol i brosesau maethu prif ffrwd. Fe wnaeth yr adborth hwn lywio cynigion yn uniongyrchol i gyflwyno fframwaith asesu wedi'i deilwra ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau a threfniadau adolygu mwy hyblyg.

**Effaith a Ragwelir ar Blant a Phobl Ifanc**

Disgwylir i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o grwpiau plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheini sydd:

- **Yn derbyn gofal neu wedi'u mabwysiadu:** Gwell mynediad at wasanaethau cymorth, cynllunio gofal cliriach a mwy o barhad o ran gofal.
- **Yn byw mewn trefniadau gofal gan berthynas:** Fframweithiau asesu a chymorth mwy priodol sy'n adlewyrchu deinameg y teulu ac yn lleihau biwrocratiaeth ddiangen.
- **Yn cael cymorth therapiwtig:** Gallai mwy o wasanaethau cwnsela ar gyfer oedolion a fabwysiadwyd fod o fudd anuniongyrchol i blant drwy wella llesiant teuluoedd.
- **Mewn gofal maeth:** Gall prosesau trosglwyddo symlach wella sefydlogrwydd lleoliadau a threfniadau diogelu.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhai risgiau os bydd newidiadau i ofynion cofrestru yn lleihau goruchwyliaeth neu sicrwydd ansawdd. Mae'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru gan archwiliadau comisiynu presennol a dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol.

**Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc**

Er bod y newidiadau arfaethedig wedi bod yn destun ymgysylltu helaeth â gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith cyfranogol uniongyrchol gyda nhw oherwydd natur dechnegol y cynigion deddfwriaethol, sy'n cynnwys fframweithiau rheoleiddio a chanllawiau statudol. Mae'r rhain yn gymhleth ac nid ydynt ar gael yn rhwydd i blant heb wybodaeth arbenigol. Yn hytrach, fe wnaethom ddibynnu ar sefydliadau sy'n cynrychioli lleisiau plant i sicrhau bod eu safbwyntiau'n llywio’r gwaith o ddatblygu polisi. Mae'r cynigion yn ymateb i adborth gan bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan berthynas, sydd wedi mynegi pryderon ynghylch effaith anghymesur y system derbyn gofal ar eu lleoliadau.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu’r effaith

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil, adborth gan randdeiliaid, ac ymgysylltu â'r sector, mae'r newidiadau polisi yn debygol o gael effaith gadarnhaol, ar y cyfan, ar blant a phobl ifanc ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n derbyn gofal, wedi'u mabwysiadu, neu sy'n byw mewn trefniadau gofal gan berthynas.

## Effeithiau Cadarnhaol

- **Gwell mynediad at wasanaethau cymorth:** Drwy gael gwared ar rwystrau rhag gorfod cofrestru ar gyfer darparwyr cymorth mabwysiadu a gwasanaethau cwnsela i oedolion, bydd plant a phobl ifanc yn elwa o fwy o gymorth therapiwtig ac emosiynol, yn uniongyrchol a thrwy wella llesiant eu teuluoedd.
- **Cynllunio gofal sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn:** Bydd diweddariadau i God Ymarfer Rhan 6 yn sicrhau bod cynlluniau gofal ar gyfer mabwysiadu yn gliriach ac yn cyd-fynd yn well ag anghenion unigol plant, gan hyrwyddo sefydlogrwydd a pharhad.
- **Mwy o hyblygrwydd o ran gofal gan berthynas:** Bydd creu gofynion asesu penodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau a phrosesau asesu ac adolygu wedi'u teilwra yn lleihau biwrocratiaeth ddiangen ac yn adlewyrchu realiti lleoliadau teuluol yn well, gan wella'r profiad i blant sy'n derbyn gofal gan berthynas.
- **Eglurder ynghylch cymorth ariannol:** Bydd canllawiau cliriach ar gael gafael ar lwfansau maethu uwch yn helpu i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu drwy gymorth ariannol priodol i'w gofalwyr.
- **Prosesau adolygu tecach:** Bydd newidiadau i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol yn sicrhau bod darpar ofalwyr maeth yn gallu cael adolygiad ystyrlon, hyd yn oed pan fydd adroddiad cryno yn cael ei gyhoeddi, gan gefnogi tegwch a diogelu wrth wneud penderfyniadau.

## Effeithiau Negyddol Posibl a Mesurau Lliniaru

- **Llai o oruchwyliaeth reoleiddiol:** Gall dileu gofynion cofrestru AGC ar gyfer rhai darparwyr godi pryderon am ansawdd gwasanaeth. I liniaru hyn, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar archwiliadau comisiynu cadarn a dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau diogelwch a sicrwydd ansawdd.
- **Mwy o alw ar wasanaethau:** Wrth i fynediad wella, gallai gwasanaethau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol wynebu mwy o alw. Gallai hyn roi straen ar gapasiti oni bai fod cyllid priodol ar gael a threfniadau cynllunio'r gweithlu ar waith hefyd. Bydd monitro ac ymgysylltu parhaus â darparwyr yn hanfodol.
- **Amrywiadau o ran gweithredu:** Gallai gwahaniaethau o ran y modd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio fframweithiau newydd (e.e. templedi cynlluniau cymorth neu feini prawf lwfans uwch) arwain at anghysondeb. Nod cyflwyno gofynion statudol a chanllawiau cliriach yw lleihau'r risg hon.

I gloi, mae'r polisi wedi'i gynllunio i gryfhau hawliau plant i gael cymorth, sefydlogrwydd a llais yn y system ofal. Er bod rhai risgiau'n bodoli, maent yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw drwy fesurau diogelu, dyletswyddau statudol a chydweithio parhaus yn y sector.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 3 - Lles pennaf y plentyn** | Gwasanaethau cymorth a chynllunio gofal cliriach. | Gall llai o oruchwyliaeth yn sgil dadreoleiddio roi penderfyniadau er lles pennaf plant ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn y fantol. | Nod y cynigion yw gwella cynllunio gofal, sefydlogrwydd lleoliadau a mynediad at wasanaethau cymorth, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles pennaf y plentyn. Bydd dyletswyddau statudol yn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel. |
| **Erthygl 12 – Hawl i gael gwrandawiad** | Gwell cyfranogiad mewn prosesau cynllunio ac adolygu gofal. | Gall natur dechnegol cynigion gyfyngu ar ymgysylltiad uniongyrchol. | Cryfhau llais y plentyn mewn prosesau cynllunio ac adolygu gofal, yn enwedig drwy ddiweddariadau i God Ymarfer Rhan 6.<br><br>Mae cynigion ar gyfer trefniadau adolygu mwy hyblyg ar gyfer gofal gan berthynas yn cynnwys ymgynghori â'r plentyn a'r teulu cyn penderfynu pa mor aml y dylid ymweld.<br><br>Gwahoddir plant i gyfrannu at ddyluniad a chynnwys cyhoeddiadau sy'n addas i blant sy’n egluro'r newidiadau. |
| **Erthygl 13 – Hawl i gael gwybodaeth** | Ymrwymiad i fformatau cyfathrebu sy'n addas i blant. | Risg o gyfathrebu annigonol ar gyfer plant ag anghenion gwahanol. | Bydd y polisi'n sicrhau ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ac asiantaethau ddarparu diweddariadau mewn fformatau sy'n addas i blant a thrwy nifer o sianeli sy'n cynnwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cysylltu â chynghorau ieuenctid mabwysiadu, Grŵp Cyswllt a chylchgrawn *Thrive* i blant sy'n derbyn gofal, sy'n ystyried anghenion cyfathrebu amrywiol plant fel iaith, anabledd a chyd-destunau sy'n ymwneud â diwylliant a llesiant. |
| **Erthygl 19 - Amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod** | Mae'r dyletswyddau diogelu yn dal i fod yn statudol. | Gallai mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau adolygu gofal arwain at arferion anghyson ar draws awdurdodau lleol, gan greu bylchau o ran canfod a mynd i'r afael â risgiau trais, camdriniaeth neu esgeulustod. Ar ben hynny, gall lleihau goruchwyliaeth reoleiddiol wanhau atebolrwydd, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd anghenion amddiffyn plant yn cael eu hanwybyddu yn ystod adolygiadau. | Mae'r polisi'n cynnal dyletswyddau diogelu statudol ac archwiliadau comisiynu i amddiffyn plant rhag niwed. Ystyrir bod y mesurau lliniaru'n ddigonol gan fod dyletswyddau diogelu statudol yn dal mewn grym. |
| **Erthygl 20 - Amddiffyn plant heb deuluoedd** | Mae gwelliannau i fframweithiau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yn cryfhau sefydlogrwydd i | Gallai cyflwyno categori penodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau a threfniadau adolygu hyblyg arwain at anghysondebau o | Mae gwelliannau i fframweithiau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan sicrhau lleoliadau priodol a sefydlog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | blant sy'n derbyn gofal drwy gyflwyno categori penodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau gyda phrosesau asesu ac adolygu wedi'u teilwra, gan leihau stigma a biwrocratiaeth ddiangen. Mae templedi'r Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig Statudol a chynnwys y Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar yn y Cod yn sicrhau cymorth cyson o ansawdd uchel ac yn lleihau trawma gan darfu cyn lleied â phosibl ar leoliadau. | ran gweithredu ar draws awdurdodau lleol, gan arwain at safonau gofal anghyson. Gall defnyddio arferion Sefydlogrwydd Cynnar a thempledi Cynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig mewn modd statudol roi straen ar adnoddau a chapasiti'r gweithlu, sy'n gofyn am fonitro cadarn i osgoi bylchau mewn cymorth. | Cyflwyno categori penodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau, gyda fframweithiau asesu ac adolygu wedi'u teilwra i leihau stigma a biwrocratiaeth.<br><br>Mae templedi Cynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn dod yn statudol i sicrhau cymorth cyson o ansawdd uchel i blant mewn trefniadau teuluol parhaol.<br><br>Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar y cyfeirir ato yn y Cod i leihau trawma a tharfu yn y lleoliad. |
| **Erthygl 21 - Mabwysiadu** | Gwell trefniadau cynllunio a chymorth mabwysiadu. | Gallai goruchwylio darparwyr yn llai effeithio ar ansawdd y gwasanaeth. | Mae newidiadau i wasanaethau cymorth mabwysiadu a chynllunio gofal yn gwella ansawdd a hygyrchedd cymorth i deuluoedd a phlant a fabwysiadwyd. Bydd mynediad at wasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael ei wella drwy drefniadau comisiynu mwy effeithlon a chanllawiau statudol cliriach i weithwyr proffesiynol ar gynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cymorth ar ôl mabwysiadu. |
| **Erthygl 23 - Hawl plant anabl i ofal arbennig** | Mae’r templedi'n cynnwys cymorth wedi'i deilwra ar gyfer plant anabl. | Risg na fydd darpariaeth arbenigol wedi'i theilwra ar gael yn rhwydd i deuluoedd sydd ei hangen. | Mae'r polisi'n cefnogi'r hawl hon drwy fynnu bod templedi cynlluniau cymorth wedi'u datblygu'n genedlaethol ar gael sy'n cynnwys darpariaethau wedi'u teilwra ar gyfer plant anabl a'u gofalwyr. Bydd y templedi pwrpasol hyn yn cynnwys asesiad o anghenion gofal a chymorth plant anabl. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac ansawdd wrth ddiwallu anghenion ychwanegol o fewn trefniadau gofal. |
| **Erthygl 25 - Adolygu triniaeth mewn gofal** | Mae'r polisi'n gwella'r hawl hon drwy gyflwyno trefniadau adolygu cliriach a mwy hyblyg ar gyfer gofal gan berthynas a chynnal goruchwyliaeth drwy ddyletswyddau statudol. Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau gofal plant yn cael eu hasesu a'u haddasu'n rheolaidd i ddiwallu eu hanghenion | Gallai mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau adolygu arwain at anghysondebau yn y ffordd y cynhelir adolygiadau gofal ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Ar ben hynny, gallai llai o oruchwyliaeth reoleiddiol wanhau atebolrwydd i sicrhau bod anghenion plant yn cael sylw llawn yn ystod yr adolygiadau hyn.<br><br>Risg o ddehongli'n anghyson y templed | Mae’r cynigion ar gyfer trefniadau adolygu mwy hyblyg ar gyfer gofal gan berthynas yn dal i gynnal goruchwyliaeth, wedi'i theilwra i anghenion y plentyn ac wrth iddo fynd yn hŷn maent yn dod yn fwy ymatebol i amgylchiadau sy'n esblygu neu'n newid.<br><br>Drwy ychwanegu gofyniad statudol am dempled Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig i bob awdurdod lleol ei ddefnyddio, bydd y templedi yn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. Bydd hyn yn hyrwyddo tegwch ac eglurder. Bydd eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | unigol. Bydd cyflwyno templed Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer darparu cymorth wedi'i deilwra i'r teulu. | Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig ar draws awdurdodau lleol. | cludadwyedd rhwng awdurdodau lleol yn gwella parhad gofal ac yn lleihau dyblygu. |
| **Erthygl 26 - Yr hawl i gael budd o nawdd cymdeithasol** | Canllawiau cliriach ar lwfansau maethu uwch sy'n ceisio cryfhau'r cymorth ariannol sydd ar gael i deuluoedd. Mae'r polisi'n amlinellu'n glir sut gellir asesu gofalwyr sydd wedi'u cymeradwyo dros dro yn erbyn meini prawf cymhwysedd awdurdodau lleol ar gyfer lwfans uwch. | Gallai amrywiadau o ran y modd y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu hyn effeithio ar fynediad at lwfansau. | Mae'r polisi'n cryfhau cymorth ariannol i blant drwy egluro mynediad at lwfansau maethu uwch a sicrhau cysondeb drwy ganllawiau statudol. Mae hyn yn helpu teuluoedd mewn angen i gynnal sefydlogrwydd a diwallu anghenion hanfodol plant, gan leihau'r risg o galedi ariannol. |
| **Erthygl 27 – Safon byw ddigonol** | Egluro mynediad at lwfansau maethu uwch a chyflwyno templedi statudol ar gyfer cynlluniau cymorth, gan | Er bod y polisi'n egluro mynediad at lwfansau maethu uwch, mae risg o weithredu anghyson ar draws awdurdodau lleol, a allai arwain at | Mae egluro mynediad at lwfansau maethu uwch yn cefnogi sefydlogrwydd ariannol i ofalwyr, sydd o fudd i lesiant plant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac ymarferol i blant mewn gofal. Mae'r mesurau hyn yn helpu gofalwyr i ddiwallu anghenion hanfodol plant a chynnal safon byw gyson ar draws trefniadau gofal. | gymorth ariannol anghyfartal i deuluoedd. Ar ben hynny, gall mwy o alw ar wasanaethau heb gyllid digonol roi straen ar adnoddau, a allai effeithio ar safon byw plant. | |
| **Erthygl 30 - Yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith y teulu** | Cydnabod anghenion diwylliannol ac ieithyddol plant o fewn lleoliadau. | Gallai canllawiau annigonol anwybyddu anghenion iaith. | Mae'r polisi'n cefnogi'r hawl hon drwy hyrwyddo lleoliadau sy'n ddiwylliannol sensitif ac annog cydnabod anghenion iaith teuluoedd o fewn trefniadau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas. Bydd canllawiau a thempledi cynllunio cymorth yn helpu i sicrhau bod plant yn cynnal eu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol lle bynnag y bo modd. |
| **Erthygl 39 - Adfer ar ôl trawma ac ailintegreiddio** | Mae gwell mynediad at wasanaethau therapiwtig i deuluoedd ac oedolion a fabwysiadwyd yn cefnogi adferiad a llesiant emosiynol, ac mae cael gwared ar rwystrau rhag | Er bod cael gwared ar rwystrau rhag cael gafael ar wasanaethau cwnsela i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu yn gwella mynediad, gall leihau goruchwyliaeth reoleiddiol a chodi pryderon am ansawdd | Mae gwell mynediad at wasanaethau therapiwtig i deuluoedd ac oedolion a fabwysiadwyd yn cefnogi adferiad a llesiant emosiynol.<br><br>Mae cael gwared ar rwystrau rhag cael gafael ar wasanaethau cwnsela i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu o fudd anuniongyrchol i blant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael gafael ar wasanaethau cwnsela i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu o fudd anuniongyrchol i blant drwy gryfhau sefydlogrwydd a llesiant teuluoedd. | gwasanaethau a mesurau diogelu. Gallai mwy o alw am wasanaethau therapiwtig roi straen ar gapasiti darparwyr, gan arwain at oedi a chymorth anghyson i deuluoedd. | drwy wella llesiant teuluoedd. |

Mae'r cynigion hyn wedi'u cynllunio i gynnal a gwella hawliau plant drwy wella'r systemau sy'n cefnogi eu gofal, eu diogelwch a'u datblygiad. Er na nodir unrhyw heriau uniongyrchol i hawliau, bydd monitro parhaus yn bwysig i sicrhau nad yw dadreoleiddio (e.e. dileu cofrestriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru) yn peryglu ansawdd gwasanaeth na mesurau diogelu yn anfwriadol. Mae'r cynigion wedi cael eu hadolygu yn erbyn sylwadau terfynol ac arsylwadau cyffredinol CCUHP i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol.

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Nid yw'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n uniongyrchol at Hawliau Dinasyddion yr UE mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried sut gallai'r hawliau hyn fod yn berthnasol, yn enwedig i **blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n wladolion yr UE neu sydd ag aelodau o'r teulu sy'n ddinasyddion yr UE** sy'n byw yng Nghymru.

Ystyriaethau Perthnasol:

- **Mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol**: Dylai plant yr UE sy'n byw yng Nghymru gael mynediad cyfartal at wasanaethau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig. Rhaid gweithredu'r newidiadau arfaethedig - fel gwella cynllunio gofal, cynyddu mynediad at wasanaethau cymorth ac egluro cymhwysedd ar gyfer lwfansau maethu uwch - mewn ffordd nad yw'n rhoi plant dan anfantais ar sail eu cenedligrwydd neu eu statws mewnfudo.

- **Diogelu a sefydlogrwydd lleoliadau**: Gall plant mewn gofal yn yr UE wynebu ffactorau ychwanegol sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed, fel rhwystrau iaith, gwahaniaethau diwylliannol neu ansicrwydd ynghylch statws preswylio. Gallai'r cynigion i wella sefydlogrwydd lleoliadau helpu i sicrhau bod plant yr UE yn cael eu lleoli mewn amgylcheddau diogel sy'n briodol yn ddiwylliannol.

- **Hawl i fywyd teuluol a pharhad gofal**: O dan Hawliau Dinasyddion yr UE a CCUHP, mae gan blant yr hawl i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'u teulu. Gallai cynigion sy'n gwella'r cymorth ar gyfer gofal gan berthynas a threfniadau cyswllt sy'n gysylltiedig â mabwysiadu gryfhau'r hawl hon, yn enwedig ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu oherwydd achosion mudo neu achosion gofal.

Er nad yw'r cynigion yn mynd i'r afael yn benodol â Hawliau Dinasyddion yr UE, dylid eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau **nad oes gwahaniaethu, bod mynediad cyfartal** a bod **hawliau pob plentyn yn cael eu diogelu**, gan gynnwys y rheini sy'n wladolion yr UE neu sydd â chysylltiadau teuluol â'r UE. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw statws mewnfudo yn dod yn rhwystr rhag cael gofal, cymorth neu gymorth ariannol o dan y fframweithiau diwygiedig.

## 4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

Bydd y dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn cael ei gynnwys yn y cyngor Gweinidogol i geisio cytundeb i gyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gosod yr is-ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer diwygiedig Rhan 6 a'r Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at eich rheolwr gwe adrannol i'w cyhoeddi.*

- *Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir i flwch post CRIA@llyw.cymru hefyd.*

## 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Oherwydd natur dechnegol y newidiadau arfaethedig, y mae llawer ohonynt yn ymwneud â fframweithiau rheoleiddio, canllawiau statudol a phrosesau gweinyddol, nid ystyriwyd ei bod yn gymesur nac yn briodol ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn seiliedig ar ymgysylltu helaeth â gweithwyr proffesiynol, gofalwyr, gwasanaethau cymorth a sefydliadau sy'n gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad bywyd o ofal. Mae eu mewnbwn wedi helpu i lunio'r diwygiadau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion a hawliau plant a phobl ifanc. Bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu drwy gyhoeddiadau sy'n addas i blant a fforymau ieuenctid. Bydd sefydliadau fel NAS a Maethu Cymru yn cefnogi'r gwaith o ledaenu'r wybodaeth.

## 7. Monitro ac Adolygu

Er mwyn sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, bydd y mecanweithiau monitro ac adolygu canlynol yn cael eu rhoi ar waith:

- **Integreiddio â goruchwylio'r broses weithredu:** Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu ochr yn ochr â'r gwaith o roi'r newidiadau arfaethedig ar waith i'r ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw effeithiau anfwriadol ar hawliau plant yn cael eu nodi ac yn cael sylw'n gynnar.
- **Adborth gan randdeiliaid:** Bydd ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, gofalwyr ac ymarferwyr yn helpu i fonitro sut mae'r newidiadau'n effeithio yn ymarferol ar blant a phobl ifanc.
- **Adolygiad yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad:** Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud y penderfyniadau terfynol, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r cynigion ac i asesu a oes angen mesurau lliniaru neu wella ychwanegol.
- **Gwerthusiad ar ôl gweithredu:** Bydd adolygiad ffurfiol o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei drefnu o fewn 12-18 mis i'w weithredu, yn unol ag unrhyw werthusiad ehangach o'r diwygiadau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried adborth gan blant a phobl ifanc lle bo hynny'n briodol.
- **Cydlynu ar draws polisïau:** Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ystyried eto os bydd meysydd polisi cysylltiedig (e.e. addysg, iechyd, tai) yn cyflwyno newidiadau a allai ryngweithio â'r cynigion ac effeithio ar hawliau plant.